**Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol**
—
**Health and Social Care Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddIechyd@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddIechyd
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddHealth@senedd.wales
senedd.wales/SeneddHealth
0300 200 6565

Y Gwir Anrhydeddus Mark Drakeford AS
Y Prif Weinidog
Llywodraeth Cymru

19 Ionawr 2022

Annwyl Mark

Ymchwiliad cyhoeddus COVID-19 ledled y DU: cylch gorchwyl drafft

Diolch am eich llythyr dyddiedig 14 Rhagfyr 2021 yn gofyn a yw'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn bwriadu ystyried a darparu sylwadau ar y cylch gorchwyl drafft ar gyfer ymchwiliad cyhoeddus COVID-19 ledled y DU.

Sylwaf nad yw'r cylch gorchwyl drafft na phroses ymgynghori ac ymgysylltu arfaethedig y Farwnes Hallett wedi'u cyhoeddi eto.

Trafodwyd eich llythyr yn ein cyfarfod ar 13 Ionawr 2022. Fodd bynnag, daethom i'r casgliad na allem ddod i benderfyniad ar y mater hwn nes inni gael cyfle i weld y cylch gorchwyl drafft, a chael rhagor o wybodaeth am y broses ymgysylltu a'r amserlenni cysylltiedig.

Ysgrifennaf atoch eto maes o law.

Yn gywir

Russell George AS

Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg. We welcome correspondence in Welsh or English.